

## BARKER, THOMAS WILLIAM (1861 - 1912), cofrestrydd esgobaeth Tyddewi

**Enw:** Thomas William Barker  
**Dyddiad geni:** 1861  
**Dyddiad marw:** 1912  
**Rhiant:** J.H. Barker  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cofrestrydd esgobaeth Tyddewi  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd 12 Mai 1861 yng Nghaerfyrddin, mab J. H. Barker, cyfreithiwr lleol a fu ei hun yn glerc bwrdeisdref Caerfyrddin a chofrestrydd esgobaeth Tyddewi. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin ac yn Harrow. Ymsefydlodd fel cyfreithiwr, a daeth yn aelod o gwmi Barker, Morris, a Barker gyda'i dad fel prif aelod.

Apwyntiwyd ef yn ysgrifennydd i esgob Tyddewi ym Mehefin 1897 ac yn gofrestrydd yr esgobaeth yn Chwefror 1899, swydd a lanwodd hyd ei farw. Yn wleidyddol yr oedd yn Geidwadwr. Ymddiddorai ym myd natur a hynafiaethau. Cymerai ran flaenllaw mewn mudiadau lleol - milwrol, ieuencid, etc. Crynhodd lawlyfr Saesneg, *A Handbook to the Natural History of Carmarthenshire*, a gyhoeddwyd yn 1905, a hefyd *Particulars relating to the endowments, etc., of livings in the diocese of S. Davids*, a gyhoeddwyd yn 1907 mewn pedair cyfrol, un am bob archddiaconaeth yn yr esgobaeth. Ynghyd a Francis Green crynhodd restrau o offeiriadon Sir Benfro - rhestrau a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn *West Wales Historical Records*. i-vi, 1912-6. Bu farw 7 Gorffennaf 1912.

### Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

### Ffynonellau

*Cofrestri esgobol Tyddewi*

*The Welshman*, 1861 a 1912

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734539](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Tranhu

Arddull APA

x

Griffiths, G. M., (1953). BARKER, THOMAS WILLIAM (1861 - 1912), cofrestrydd esgobaeth Tyddewi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 7 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BARK-WIL-1861>

Cyfeirnod

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government